Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Twyni tywod dros amser - Cwningar Niwbwrch

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **2-3 awr** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio perthynas pobl â thwyni tywod a sut mae'r adnoddau naturiol a ddarparant wedi'u defnyddio dros amser.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |

## Amcanion

- Bydd dysgwyr yn gallu egluro sut mae lleoliad y twyni tywod y mae eich dysgwyr wedi'u hastudio wedi newid dros amser
- Bydd dysgwyr yn gallu deall sut mae pobl a oedd yn byw yn yr ardal wedi defnyddio adnoddau naturiol o'r system dwyni a'r ardal gyfagos dros amser

## Adnoddau ac offer

- **Cardiau adnoddau - Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch**

## Beth i'w wneud

Yng nghornel de-orllewin Ynys Môn, Cwningar Niwbwrch yw un o'r systemau twyni mwyaf a gorau ym Mhrydain. Wedi'i ffurfio dros filoedd o flynyddoedd gan y gwynt a'r môr, mae'n gartref i gasgliad syfrdanol o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r traeth hir yn boblogaidd iawn ymhlith ymwelwyr, twristiaid a phobl leol fel ei gilydd gyda Choedwig Niwbwrch yn cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer hamddena, gan gynnwys cerdded, beicio a marchogaeth.

Os hoffech ddysgu mwy am yr hyn sydd i'w weld a'i wneud ar y safle, edrychwch ar leoedd CNC i ymweld â nhw **Cyfoeth Naturiol Cymru/Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Choedwig Niwbwrch, Ynys Môn** am wybodaeth.

Gall eich dysgwyr ddysgu mwy am hanes diddorol y twyni tywod yng Nghwningar Niwbwrch drwy gwblhau ein gweithgaredd llinell amser. Gellir cwblhau'r gweithgaredd hwn:

- Gyda'ch dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach, yn trafod ac yn didoli'r cardiau i'r drefn gronolegol gywir.
- Fel ras gyfnewid. Dewch o hyd i ardal addas am weithgaredd rhedeg, yn ddelfrydol ardal wastad heb unrhyw beryglon baglu. Rhannwch eich dysgwyr yn dimau. Fe fydd arnoch chi angen set **Cardiau adnoddau - Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch** ar gyfer pob tîm. Rhowch gardiau pob tîm ar hap, wyneb i lawr ar y llawr ac ychydig fetrau i ffwrdd o'r man lle mae'r tîm wedi casglu. Mae'r aelod cyntaf o bob tîm yn rhedeg allan, yn casglu cerdyn, ac yn dod ag ef yn ôl. Yna mae'r aelod nesaf o'r tîm yn rhedeg i gasglu cerdyn ac yn y blaen. Yn eu tîm, bydd angen i'ch dysgwyr weithio gyda'i gilydd i baru'r cardiau gyda'r disgrifiad cywir a'u rhoi mewn trefn gronegol. Y tîm cyntaf i hôl, trafod a pharu cardiau'n gywir sy'n ennill.
- Gyda'ch dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i greu llinell amser ddynol. Rhowch set o gardiau i bob dysgwr am flwyddyn benodol a gofynnwch iddynt eu dal neu eu pegio i'w dillad, fel bod eraill yn y grŵp yn gallu eu gweld. A all eich dysgwyr weithio gyda'i gilydd i drefnu eu hunain i'r drefn gronolegol gywir heb siarad?
- Pan fydd eich dysgwyr yn ymwybodol o'r amserlen ddigwyddiadau, profwch eu gwybodaeth. Gyda'r cardiau wyneb i lawr ar arwyneb gwastad ac yn cael eu chwarae fel gêm o baru cardiau, mae'r dysgwyr yn cymryd eu tro i droi'r cardiau drosodd. A all eich dysgwyr baru'r digwyddiadau â'r cardiau dyddiad? Pwy bynnag sy'n paru'r mwyaf o barau o gardiau yn gywir yw'r enillydd.

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Sut mae'r system twyni tywod wedi newid dros amser?
- Sut mae'r bobl a oedd yn byw yn yr ardal wedi defnyddio'r adnoddau naturiol a ddarperir gan y system dwyni dros amser?
- Pe na bai'r system twyni tywod yno, a fyddai pentref wedi sefydlu yn y lleoliad beth bynnag?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gefnogaeth

- Tynnwch rai o'r cardiau o'r set.
- Cwblhewch y gweithgaredd fel grŵp cyfan.

### Mwy o her

- A all eich dysgwyr gael rhagor o wybodaeth am hanes Cwningar Niwbwrch a chreu cardiau ychwanegol i'w cynnwys yn y llinell amser?

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

- Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu eu bod yn byw yn Niwbwrch yn ystod stormydd mawr y 1330au. Un diwrnod, maent yn gofalu am eu tir a'u hanifeiliaid; y diwrnod wedyn, mae eu cartref a'u tir wedi'u claddu dan anialwch o dywod:
    - A ydyn nhw'n gallu disgrifio'r olygfa?
    - Sut bydden nhw wedi teimlo?
    - Claddwyd 200 erw neu ardal gymaint â 150 o gaeau pêl-droed dros nos. A all eich dysgwyr gyfrifo maint yr ardal hon o dir ar Google Maps neu MapDataCymru? Mae cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn yn ein **Cynllun gweithgaredd – Hyrwyddwyr natur**.
    - Sawl gwaith y byddai hyn wedi gorchuddio ardal tir eich lleoliad chi?

- Beth am roi cynnig ar ein **Cynllun gweithgaredd - Hyrwyddwyr natur**. Yn ddamcaniaethol, a ddylid datblygu'r system twyni yn ganolfan siopa adwerthu? Mae'r gweithgaredd desg hwn yn gosod y cefndir i ddysgwyr ddod yn hyrwyddwyr natur. Gan ddefnyddio eu sgiliau digidol, mae'r dysgwyr yn cael y dasg o ymchwilio i hanes ac arwyddocâd system twyni tywod cyn cyflwyno eu canfyddiadau gan ddefnyddio iaith ddarbwyllol.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr baratoi animeiddiad stop-symud gan ddefnyddio ein **Cynllun gweithgaredd – Animeiddio natur drwy animeiddio stop-symud**. A all eich dysgwyr greu animeiddiad i ddangos sut mae twyni tywod yn ffurfio? Gellir defnyddio ein hadnodd **Gemau a Gweithgareddau - O ronyn o dywod i dwyn** i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth eich dysgwyr. Neu beth am greu animeiddiad i adrodd hanes y twyni?
- A all eich dysgwyr gynllunio, paratoi a chynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am hanes y twyni? Bydd ein **Cynllun gweithgaredd – Ymgyrchu dros natur: Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol** ynghyd a'r **Daflen waith – Ymgyrchu dros natur** yn dangos i'ch dysgwyr beth i'w wneud.

## Cynaeafu moresg yn Niwbwrch – diwydiant a arferai ffynnu

- Roedd gwehyddu moresg i wneud matiau, rhaffau, rhwydi, basgedi a defnydd matiau ar gyfer cadw gwair ac ŷd yn sych yn ddiwydiant ffyniannus yn Niwbwrch rhwng y 18fed a'r 20fed Ganrif. Ar ôl ymweld â Niwbwrch yn y 1770au, ysgrifennodd Thomas Pennant fod yr ardal "bellach yn cynnal ei hun drwy gynhyrchu matiau wedi'u gwneud o gawnwellt y môr". Roedd y dynion yn weithwyr fferm ar gyflogau isel, a byddai'r menywod, y merched ac weithiau'r bechgyn yn ategu incwm y teulu drwy dorri moresg o'r twyni a'i blethu. Weithiau, byddai llafurwyr mewn cymunedau eraill yn dioddef caledi oherwydd cyflog isel, ond er bod y gwaith yn destun dirmyg gan ddieithriaid, roedd yn sicrhau bod gan drigolion Niwbwrch incwm cyson. Gellir gweld cerflun sy'n coffáu diwydiant gwehyddu moresg ym maes parcio Llyn Rhos Ddu, Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Os ydych yn ymweld â system twyni tywod, torrwch ychydig o foresg, a heriwch eich dysgwyr i roi cynnig ar wehyddu rhywfaint o raff moresg. Os nad ydych yn bwriadu ymweld â system dwyni, beth am roi cynnig ar yr un gweithgaredd ag ychydig o laswellt hir? Yn galed ar y bysedd? Roedd yn rhaid i'r matiau a wehyddwyd gan wehyddion Niwbwrch fod yn 3 llath (2.74m) o hyd wrth 1 llath (0.91m) o led a byddai ffermwyr yn eu defnyddio i ddiogelu eu gwair rhag y tywydd wrth ganiatáu iddo anadlu. Mae gan Gasgliad y Werin Cymru lun o **Ellen Williams o Niwbwrch** yn gwehyddu moresg i wneud matiau.
  - A all eich dysgwyr roi eu hunain yn esgidiau Ellen ac ysgrifennu disgrifiad uniongyrchol o ddiwrnod nodweddiadol yn ei bywyd?
  - Gofynnwch i'ch dysgwyr gymryd arnynt eu bod yn gweithio i gwmni teledu sydd am gynhyrchu ffilm fer am hanes Niwbwrch. Pe baent yn cael y cyfle i holi Ellen, beth fydden nhw'n ei ofyn iddi am ei gwaith?

## Adnoddau eraill

- Cynllunio ymweliad gyda'ch grŵp? Mae twyni tywod yn aml yn gynefinoedd a warchodir ac yn amgylcheddau sy'n gallu bod yn beryglus. I sicrhau eich bod chi a'ch dysgwyr yn cael **ymweliad** diogel a phleserus, cysylltwch â ni cyn eich ymweliad i gael caniatâd ar gyfer eich gweithgareddau arfaethedig. Mae gennym ffurflen fer a syml i chi ei llenwi ac yn ein hateb, byddwn yn dweud wrthych am unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith, yn helpu gyda mapiau ac yn cynnig arweiniad. **Cyfoeth Naturiol Cymru/Cynllunio digwyddiad, gweithgaredd neu brosiect ar ein tir**.
- Roedd Llys Rhosyr yn un o lysoedd brenhinol Llywelyn Fawr (1172-1240) - sef Tywysog Gwynedd yn y 13eg Ganrif. Rheolai'r tywysogion drwy deithio drwy eu teyrnas ac eistedd mewn llysoedd mewn ardaloedd gweinyddol bach o'r enw 'cymydau'. Roedd gan bob un ei Lys ac roedd Llys Rhosyr yng nghanol cwmwd Menai ger lle mae eglwys blwyf Niwbwrch bellach. Ail-grëwyd 'Llys Llywelyn' Llys Brenhinol Tywysogion Gwynedd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd ac roedd yn seiliedig ar olion Llys Rhosyr a oedd wedi goroesi.

  **Llys Rhosyr (heneb.co.uk)**

  **Llys Llywelyn | Amgueddfa Cymru**

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023
Mae prosiect Twyni Byw wedi derbyn cynnlid drwy Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Life
NATURA 2000
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government